Ein ref WG/GB/KT

20 Hydref 2010

Annwyl gyfaill,

Yn gynharach yn ystod y flwyddyn roedd WCVA a Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu atoch chi am gyllideb Llywodraeth y Cynulliad i egluro'r tybiaethau roedd Gweinidogion yn eu gwneud am y gostyngiadau tebygol mewn gwariant, a'u hymrwymiad i ymgysylltu â'r trydydd sector wrth i'r penderfyniadau am y gyllideb ar gyfer y pedair blynedd nesaf gael eu llunio'n derfynol.

Ers hynny, bu cyfle i drafod y materion hyn â nifer fawr o fudiadau ledled Cymru yn nigwyddiadau polisi rhanbarthol WCVA. Rydym yn awr yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r gyllideb.

Gwyddom erbyn hyn beth yw canlyniad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU. Yn seiliedig ar ffigurau'r Trysorlys, mae'r union ostyngiad ariannol yn 0.7% y flwyddyn am y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 2.6% dros y pedair blynedd, sy'n well na'r rhagdybiaeth cynllunio o 3% y flwyddyn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried chwyddiant , bydd hyn yn golygu 12% o ostyngiad yng nghyllid refeniw Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gostyngiad cyfalaf o 41% yn debyg i'r rhagdybiaethau blaenorol.

Bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd, a dylai fod ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru www.cynulliadcymru.org a gwefan Llywodraeth y Cynulliad www.cymru.gov.uk. Bydd WCVA yn rhoi dolen i'r gyllideb ar ei wefan www.wcva.org.uk cyn gynted â bydd ar gael.

Bydd y setliad drafft ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi wythnos ar ôl y gyllideb ddrafft, ar 23 Tachwedd.

Bydd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Craffu'r Cynulliad yn archwilio'r gyllideb ddrafft a'r effaith a ragwelir ar bolisïau a gwasanaethau. Bydd cynigion y gyllideb hefyd yn destun Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan bob adran gwario, ac mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn debygol o graffu'r rhain. Unwaith y bydd y pwyllgorau hyn wedi adrodd, bydd cyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w chymeradwyo, ddiwedd mis Ionawr neu'n gynnar ym mis Chwefror 2011 mae'n debyg.

Yn ein llythyr ar y cyd blaenorol, roedd Gweinidogion wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgysylltu brwd rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cynllunio cyllideb ar bob lefel, a bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y cyfnod rhwng yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a mabwysiadu'r gyllideb derfynol.

wcva

Supporting charities volunteers and communities
Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Wales Council for Voluntary Action
Registered Office - Head Office
Baltic House, Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FH

Tel 029 2043 1700
Fax 029 2043 1701
Minicom 029 2043 1702
(use announcer)
Helpdesk 0800 2888 329
email help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Offices also at Rhyl, Newtown and Lampeter

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Swyddfa Gofrestredig - Prif Swyddfa
Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

Ffôn 029 2043 1700
Ffacs 029 2043 1701
Minicom 029 2043 1702
(defnyddiwch y cyhoeddwr)
Lein Gymorth 0800 2888 329
e-bost help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Swyddfeydd hefyd yn y Rhyl, ac y Drenewydd a Llanbedr Pont Steffan

Investor in Excellence
INVESTOR IN PEOPLE
BUDDSODDWR MEWN POBL

Chair/Cadeirydd:
Win Griffiths
Vice-Chair/Is-Gadeiryddion:
Margaret Jervis MBE
Eurwen Edwards BEM
Chief Executive/Prif Weithredydd:
Graham Benfield OBE, MA MSc (Econ)
Hon Treasurer/Trysorydd Anrh:
Chad Patel
Secretary/Ysgrifennydd:
Jan Bish

Registered Charity/Elusen Gofrestredig 218093
Company Limited by Guarantee/
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299
Registered in Wales/Wedi ei gofrestru yng Nghymru
VAT Registration No/Rhif Taw 991 2938 79

Bydd angen i fudiadau a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad wybod sut gallai'r gyllideb ddrafft effeithio arnynt, a bydd angen iddynt weithredu'n gyflym i gael gwybod. Mae WCVA wedi cyhoeddi papur gwybodaeth ar ein gwefan www.wcva.org.uk yn esbonio sut caiff y gyllideb ei strwythuro, gan roi cyngor i fudiadau ynghylch sut i ymgysylltu â'r broses gyllideb.

Gall mudiadau gymryd nifer o gamau:

- Nodwch lle'n union yn y gyllideb ddrafft y mae eich cyllid penodol chi; mae papur gwybodaeth WCVA yn esbonio sut mae'r gyllideb wedi'i chynllunio, ond efallai y bydd angen i chi holi eich cyswllt cyllido am yr wybodaeth hon.
- Holwch eich cyswllt cyllido pa dybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft ynghylch eich cyllid penodol chi, neu ddyraniad cyffredinol y grant neu'r rhaglen cyllido sy'n berthnasol i chi.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cyswllt cyllido yn deall goblygiadau unrhyw newidiadau mewn cyllid i'ch gwasanaethau a'ch gweithgareddau
- Ystyriwch unrhyw sylwadau y byddwch am eu gwneud ynghylch yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - - gall y rhain cael ei trafod gan eich cyswllt cyllid arferol
- Darganfyddwch pa Bwyllgor Craffu fydd yn archwilio'r rhan honno o'r gyllideb yr ydych chi'n derbyn cyllid ohoni, a pha bryd fydd y pwyllgor yn cyfarfod i wneud hyn. Efallai y byddech yn dymuno cyflwyno papur gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor, neu ofyn i aelodau holi cwestiynau ynghylch y goblygiadau i'ch arian a'ch gwasanaethau: byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth a dyddiadau'r pwyllgor ar ein gwefan www.wcva.org.uk.

Rydym yn gwybod bod ymgysylltu yr un mor bwysig rhwng y sector a llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill, ac rydym yn falch bod hyn yn mynd rhagddo mewn nifer o ardaloedd.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnal trafodaethau gyda'r sector yn eu hardal am y sefyllfa gyllido, nid yn unig er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fudiadau, ond hefyd i drafod y dewisiadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a ffyrdd newydd o gydweithio. Er enghraifft, drwy'r compact gyda'r trydydd sector, mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu gweithgorau cydweithio trydydd sector/llywodraeth leol, neu maent wedi cytuno ar gyfres o gyfarfodydd gyda'r sector, er mwyn trafod effaith y gyllideb.

Ceir cydweithio tebyg ym maes iechyd. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio â'r cynghorau gwirfoddol sirol yn ei ardal i 'gyd-ddylunio' yr hyn y gall swyddogaeth y trydydd sector fod fel rhan o'r holl system iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Maent yn edrych ar sut mae manteisio i'r eithaf ar swyddogaeth y trydydd sector a swyddogaeth gofalwyr a gwirfoddolwyr. Maent hefyd yn edrych ar borth caffael ar draws ardal Hywel Dda mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a'r cynghorau gwirfoddol sirol er mwyn cael manylebau gwasanaeth sy'n fwy priodol y mae modd eu diwallu gan dendrau ar y cyd gan garfan o fudiadau trydydd sector o'r elusennau cenedlaethol mawr i'r grwpiau lleol bach. Mae Hywel Dda yn credu y bydd angen deuddeg i ddeunaw mis ar y cyd-ddylunio hwn, os yw am gael ei wneud yn dda ac os yw am gyflenwi gwasanaethau gwell yn ystod cyfnod o gyni ariannol, ac felly bydd yn ceisio cario contractau sydd eisoes ar waith ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn caniatáu gwneud y gwaith datblygu hwn, osgoi bylchau mewn gwasanaeth ac, os oes angen, galluogi mudiadau i gael digon o amser ar gyfer strategaeth ymadael wedi'i chynllunio.

Yn olaf, bydd hi'n bwysig i fudiadau allu dangos tystiolaeth o effaith ehangach gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan gyllid o'r sector cyhoeddus a goblygiadau unrhyw doriadau, a herio penderfyniadau afresymol. Mae cyllid cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer rhai mudiadau, ond mae'n werth cofio mai dim ond 2.8% o gyfanswm ei chyllideb a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y sector yn 2008-09; dim ond 3% o gyfanswm ei gwariant y mae llywodraeth leol yn ei wario ar y sector; a dim ond 0.3% y mae cyrff iechyd yn ei wario arno.

Er bod hon yn gyfran fach iawn o wariant cyhoeddus, mae'n darparu cefnogaeth hanfodol i wasanaethau sy'n arbennig o bwysig i bobl ac i gymunedau. Yn benodol mae'n cefnogi gwasanaethau sydd yn:

- Canolbwyntio ar atal neu gamu i mewn yn gynnar gan osgoi neu leihau mwy o gostau cyhoeddus dros gyfnod cymharol fyr
- Tynnu adnoddau ychwanegol i mewn (ariannol a dynol) i ddarparu mwy o werth i bobl ac i gymunedau
- Meithrin gallu mewn cymunedau er mwyn i bobl allu gweithredu eu hunain a galluogi pobl i gefnogi ei gilydd a hybu lles
- Gwasanaethau anhepgor oherwydd na fyddai'n gredadwy i unrhyw asiantaeth arall na grŵp o asiantaethau ddarparu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig

Mae angen i fudiadau wneud yn siŵr bod eu cyllidwyr yn deall cyfanswm gwerth ac effaith y gwasanaethau maent yn eu cyllido, er enghraifft drwy:

- *Mesur yr arian ychwanegol maent yn ei sicrhau o ffynonellau eraill*
- Faint o arian o ffynonellau eraill gellid ei golli o ganlyniad i doriad mewn cyllid? Pa wasanaethau eraill gellid eu colli o ganlyniad? Faint o bobl fyddai hyn yn effeithio arnynt?
- *Mesur a chostio cyfraniad amser gwirfoddolwyr*
- Faint o oriau o waith sy'n cael ei gyflawni gan wirfoddolwyr? Beth yw gwerth amser gwirfoddolwyr ar sail yr isafswm cyflog o leiaf, neu gyfradd sy'n fwy priodol? Pa wasanaethau ychwanegol sydd ar gael o ganlyniad i wirfoddolwyr?
- *Dangos yr arbedion i gyrff cyhoeddus eraill o ganlyniad i waith ataliol* Pa gostau mae eich gwasanaethau yn eu hosgoi, er enghraifft, drwy helpu pobl hŷn i aros yn eu cartref ac osgoi cost gofal preswyl, cadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder ieuenctid?

Os bydd toriadau, efallai y bydd ar fudiadau eisiau codi rhai o'r cwestiynau canlynol gyda swyddogion:

- Sut cafodd y penderfyniad ei wneud? Pa dystiolaeth gafodd ei hystyried?
- Beth yw costau cyfle'r penderfyniad? A fydd hyn yn ddrutach yn y tymor hwy?
- Faint o bobl fydd hyn yn effeithio arnynt?
- A yw'r bobl mae'n debyg y bydd hyn yn effeithio arnynt yn dod o grŵp agored i niwed neu dan anfantais?
- A fydd y gwasanaeth yn dal i gael ei ddarparu yn fewnol? Os felly, a oes achos busnes sy'n dangos mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o'i gyflenwi, a'r dewis gorau i'r dinasyddion sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- A oes penderfyniad gwrthrychol wedi cael ei wneud o ran blaenoriaeth ar sail canlyniadau a gwerth am arian?

I gloi, byddwn ni yn annog mudiadau i ymgysylltu â'u cyswllt cyllido arferol yn ystod y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â'r cyngor gwirfoddol sirol ar gyfer eich ardal a/neu WCVA os hoffech chi drafod y materion sydd wedi cael eu hamlinellu yn y llythyr hwn.

Yn gywir



Win Griffiths
Cadeirydd WCVA

Graham Benfield OBE
Prif Weithredwr WCVA